



Ymchwilio i ac arfarnu rhan gwirfoddolwyr yn y gwaith o gyflawni canlyniadau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd Crynodeb Prosiect SC120013/S

Mae'r gyfres hon o bedwar adroddiad yn disgrifio canfyddiadau gwaith gan Forest Research i ddatblygu dull cyson o werthuso buddion gweithio gyda gwirfoddolwyr fel rhan o weithgareddau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yn Lloegr. Mae'r ymchwil yn helpu Asiantaeth yr Amgylchedd i ddeall y ffordd orau y gall weithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr ac mae'n dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu canllawiau i gynorthwyo staff Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae gwirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth trwy feithrin cydnheredd a pharodrwydd cymunedau sy'n helpu i wneud cymunedau'n fwy hunandibynnol. Mae defnyddio gwirfoddolwyr yn dod â buddion i Asiantaeth yr Amgylchedd, ei sefydliadau partner, cymunedau lleol a'r gwirfoddolwyr hwythau.

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil yn cynnwys:

- adolygiad o gefndir gwirfoddoli ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd (canfuwyd 97 o enghreifftiau)
- datblygu prototeip o fframwaith gwerthuso
- arolwg ar-lein o wirfoddolwyr ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd
- defnyddio dyddiaduron gweithgarwch gwirfoddoli
- pedair astudiaeth achos oedd yn cynnwys cyfweiliadau, dadansoddi dogfennau ac ymweliadau

Cymerodd 63 o wirfoddolwyr ran yn yr arolwg a 61 yn y cyfweiliadau a thrwy ddyddiaduron. Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag ugain o aelodau o staff Asiantaeth yr Amgylchedd a sefydliadau partner a gweithdy gydag aelodau o dîm ymgysylltu cymunedol Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn bennaf roedd y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn wrywod (72%), yn hŷn na 54 oed (84%), wedi ymddeol (68%) ac yn byw mewn ardaloedd gwledig (63%). Roedd y prif gymhellion dros wirfoddoli'n cynnwys: cymryd camau i atal llifogydd; helpu'r gymuned; a chyflawni rôl arweiniol yn ymateb y gymuned i lifogydd. Y prif weithgareddau a gyflawnwyd gan wirfoddolwyr oedd:

- monitro lefelau afonydd neu'r llanw

- cymryd rhan mewn grŵp neu fforwm llifogydd i weithio gydag eraill i ddatblygu cynlluniau llifogydd, codi ymwybyddiaeth a monitro lefelau dŵr
- trosglwyddo rhybuddion llifogydd i'r gymuned
- gweithredu fflodiardau neu bympiau

Edrychodd yr astudiaethau achos ar bedwar model gwahanol o ymgysylltu â gwirfoddolwyr i ganfod pa un fyddai'r un mwyaf effeithiol ac effeithlon mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r pedwar model hwn yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i Asiantaeth yr Amgylchedd ymgysylltu â gwirfoddolwyr, gan ganiatáu ymaddasu i gyd-destun a chyfleoedd lleol.

- Roedd y Lincolnshire Flood Warden Scheme yn enghraifft o 'reoli uniongyrchol' gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Roedd y Cornwall Community Flood Forum a'r grwpiau llifogydd lleol cysylltiedig yn enghraifft o 'weithio mewn partneriaeth' a chymunedau'n gweithio 'drostynt eu hunain'.
- Roedd y River Stewardship Company yn Sheffield yn enghraifft o Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio 'trwy eraill'.
- Roedd y Bodenham Flood Protection Group yn Swydd Henffordd yn enghraifft o gymunedau'n gweithio 'drostynt eu hunain'.

Datgelodd yr astudiaethau achos ei bod yn anodd disgrifio unrhyw enghraifft benodol o wirfoddoli ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd trwy un o'r pedwar model. Mewn ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd, bu symudiad i ffwrdd o'r dull traddodiadol o reoli gwirfoddolwyr yn uniongyrchol gan Asiantaeth yr Amgylchedd at drefniadau mwy cymhleth. Ynghyd â'r datblygiad hwn bu newid mewn gweithio partneriaethol, yng nghwmpas gwaith ymgysylltu, mewn cymhellion a buddion, yn amrywiaeth y gweithgareddau ac yn lefel yr ymgysylltu.

Tynnodd y wybodaeth fanwl o'r astudiaethau achos sylw hefyd at y llif wybodaeth ddynamig aml-ffordd rhwng sefydliadau a gwirfoddolwyr sy'n helpu i gynyddu

gwybodaeth y grwpiau hyn am berygl llifogydd a sut i ymdopi ag ef.

Mae'r fframwaith gwerthuso a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn cynnwys set o feini prawf a dangosyddion (mewnbyn, allbyn, canlyniad a phroses) a phrotocolau gwerthuso cysylltiedig. Fe'i bwriedir fel adnodd i Asiantaeth yr Amgylchedd:

- werthuso mentrau gwirfoddoli ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yn y dyfodol
- dangos amrywiaeth y buddion maent yn eu darparu
- canfod ffactorau llwyddiant a meysydd y mae angen eu gwella

Cofnodwyd nifer o gyfleoedd yn ystod yr ymchwil y gallai Asiantaeth yr Amgylchedd achub arnynt i ddeall yn well, gwerthuso a gwella ei gwaith ymgysylltu â gwirfoddolwyr ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, ar lefel strategol ac ar lefel weithredol. Mae llawer o'r pwyntiau hyn yn deillio o'r amrywiaeth o ddulliau o ymgysylltu â gwirfoddolwyr a welwyd ar draws y wlad. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- Cydbwysio ymagwedd gyson â hyblygrwydd i amgylchiadau lleol
- Trosglwyddo dulliau llwyddiannus ar draws grwpiau o wirfoddolwyr
- Mesur gwerth gwirfoddoli
- Parhau i fonitro a gwerthuso
- Egluro rolau wardeiniaid llifogydd gwirfoddol
- Cydnabod gwirfoddolwyr ym maes rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd
- Ad-dalu treuliau
- Eglurder ynghylch pa yswiriant sy'n ofynnol i wirfoddolwyr
- Hyfforddiant i wirfoddolwyr a staff
- Cyfuno a rhannu adnoddau gwirfoddolwyr
- Rhannu gwersi ac arferion da
- Annog gwirfoddolwyr corfforaethol y tu allan i Asiantaeth yr Amgylchedd i wirfoddoli
- Cynyddu amrywiaeth gwirfoddolwyr

Yn gyffredinol, mae'r ymchwil yn pwysleisio'r cyfraniad pwysig y gall gwirfoddolwyr ei wneud i wrthsefyll llifogydd. Er mwyn gwireddu'r buddion hyn, mae angen i werth y cyfraniad hwn gael ei ddeall yn well a'i gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau fel y gall gwirfoddolwyr gael eu rheoli a'u cynorthwyo'n effeithiol gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r sefydliadau partner mae'n gweithio gyda hwy.

Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â gwybodaeth o brosiect SC120013, yr adroddir arno'n fanwl yn yr allbynnau canlynol:

Adroddiad: SC120013/R1

Work Package 1 report: FCRM volunteer baseline data and typology development

Adroddiad: SC120013/R2

Work Package 2 report: Developing an FCRM evaluation framework

Adroddiad: SC120013/R3

Work Package 3 report: Case study, survey, diary and interview research on FCRM volunteering

Adroddiad: SC120013/R4

Work Package 4 report: Issues and options concerning FCRM volunteering

Rheolwr y prosiect: Katherine Grose, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth

Rheolwr y thema: Jacqui Cotton, Rheoli Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol

Contractwr Ymchwil: Forest Research, Alice Holt Lodge, Farnham, Surrey GU10 4LH

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o Gyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd a Defra.

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Mae rhagor o gopiâu o'r crynodeb hwn ar gael o'n catalog cyhoeddiadau: <http://publications.environment-agency.gov.uk> neu ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid Cenedlaethol:

Ffôn: 08708 506506

E-bost: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd.